Department for Environment Food & Rural Affairs

Animal & Plant Health Agency

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgysylltiad â'r Rhanddeiliaid ynghylch Ffioedd Ardystio Hadau yng Nghymru a Lloegr

## Papur gwybodaeth a holiadur ynghylch cyflwyno ffioedd newydd am wasanaethau ardystio'r OECD a gwaith samplu ISTA sy'n cael ei wneud gan APHA

Awst 2025

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ni sy’n gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi gwyrdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi’n diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd i’r genhedlaeth nesaf, a’i gadael mewn cyflwr gwell nag y cawson ni’r amgylchedd ynddo.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth yma wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydyn ni wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad yma ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad yma gael eu hanfon aton ni yn defra-plant-varieties-and-seeds@defra.gov.uk

## Cynnwys


Cefndir ....................................................................................................................4

Y Broses Ardystio Hadau ...............................................................................4

Ardystiad yr OECD ........................................................................................4

Profi a Samplu ISTA .......................................................................................4

Allforio hadau o Brydain Fawr i drydydd gwledydd, neu symud hadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon ..................................................................................5

Trosolwg o Ffioedd Ardystio Hadau..............................................................6

Pŵer i newid ffioedd mewn perthynas â’r OECD ac ISTA ..........................6

Cynigion ..................................................................................................................7

Cyflwyno ffioedd newydd am Ardystiad yr OECD........................................7

Cyflwyno ffioedd newydd am samplu ISTA ..................................................8

Ymgysylltu â’r rhanddeiliaid ...................................................................................9

Rhychwant a diben yr ymgysylltiad â’r rhanddeiliaid ..................................9

Canlyniadau’r ymgysylltiad â’r rhanddeiliaid................................................9

Sut i ymateb..........................................................................................................9

Cyfrinachedd a gwybodaeth am ddiogelu data...........................................9

Adran 1: Amdanoch chi.......................................................................................10

Adran 2: Holiadur..................................................................................................12

# Cefndir

## Y Broses Ardystio Hadau

Mae ardystio hadau yn broses sicrhau ansawdd statudol sy'n sicrhau bod hadau yn ddigon pur, iach, hyfyw a'u bod wedi'u labelu'n gywir. Rhaid i'r hadau sy'n cael eu marchnata:

- fod wedi'u hardystio yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth,[1]
- fod wedi'u cynhyrchu drwy system gynhyrchu ddiffiniedig sy'n bodloni safonau ansawdd penodedig, ac
- wedi'u pecynnu, wedi'u labelu ac wedi'u selio'n gywir.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei weinyddu gan APHA ar ran Gweinidogion Cymru a Defra. (D.S. Llywodraeth yr Alban a DAERA sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ardystio hadau a gosod ffioedd cysylltiedig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno).

## Ardystiad yr OECD

Mae [Cynlluniau'r OECD ar gyfer Ardystio Hadau Amrywogaethau](#) yn hybu defnyddio hadau amaethyddol ardystiedig o ansawdd uchel yn gyson. Mae'r hadau hyn yn cael eu cynhyrchu – a'u rheoli'n swyddogol – yn ôl set o weithdrefnau cyson a roddwyd ar waith yn y gwledydd sy'n cymryd rhan. Y nod yw ysgogi cynhyrchu a defnyddio hadau o ansawdd uchel.

Mae gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd (OECD) wyth cynllun at ardystio amrywogaethau neu reoli symudiadau hadau yn y fasnach ryngwladol:

- Glaswelltoedd a chodlysiau
- Planhigion croesffurf a rhywogaethau olew neu ffeibr eraill
- Grawnfwydydd
- Indrawn
- Sorgwm
- Betys siwgr a betys porthiant
- Meillion tanddaearol a rhywogaethau tebyg
- Llysiau

Yng Nghymru a Lloegr does dim ffioedd yn cael eu codi ar hyn o bryd am ardystiad gan yr OECD.

## Profi a Samplu ISTA

Mae profion hadau yn rhoi gwybodaeth i ffermwyr, masnachwyr hadau a rheoleiddwyr am ansawdd hadau cyn eu hau. Prif ddiben y Gymdeithas Profi Hadau Ryngwladol (ISTA) yw

[1] Rheoliadau Marchnata Hadau 2011 a Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012

datblygu a chyhoeddi gweithdrefnau safonol ar gyfer samplu a phrofi hadau a hybu ffordd unffurf o ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn i werthuso hadau a fwriedir ar gyfer y farchnad.

Dim ond labordai achredededig ISTA sy'n cael rhoi tystysgrifau rhyngwladol ISTA. Mae'r rhain yn gwarantu:

- bod y swp hadau yn cael ei adnabod ag un cyfeirnod
- bod modd olrhain y dadansoddiad
- bod y labordy a wnaeth y dadansoddiad yn un cymwys
- bod dulliau ac unedau safonol sydd wedi'u dilysu ac ieithoedd adrodd safonol yn cael eu defnyddio

Yng Nghymru a Lloegr, does dim ffioedd yn cael eu codi ar hyn o bryd am waith samplu ISTA a wneir gan APHA.

## Allforio hadau o Brydain Fawr i drydydd gwledydd, neu symud hadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon

Er mwyn i hadau gael eu hallforio o Brydain Fawr i drydydd gwledydd neu eu symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae angen iddyn nhw gydymffurfio â gofynion y wlad y mae'r hadau yn cael eu hallforio neu eu symud iddi.

O ran allforion i'r UE, y gofynion yw:

- Amrywogaeth sydd ar Gatalog Cyffredin yr UE
- Wedi'u hardystio o dan reolau'r OECD os oes cynllun OECD perthnasol (rhaid i labeli'r OECD gynnwys y gosodiad 'EU rules and standards')
- Tystysgrif Ryngwladol Oren (OIC) yr ISTA

O ran symudiadau i Ogledd Iwerddon, y gofynion yw:

- Amrywogaeth sydd ar Restr Amrywogaethau Gogledd Iwerddon neu Gatalog Cyffredin yr UE
- Wedi'u hardystio o dan reolau'r OECD os oes cynllun OECD perthnasol (rhaid i labeli'r OECD gynnwys y gosodiad 'EU rules and standards')
- Tystysgrif Ryngwladol Oren (OIC) yr ISTA

O ran allforion i drydydd gwledydd eraill sy'n aelodau o gynlluniau hadau yr OECD, y gofynion yw:

- Amrywogaeth sydd ar Restr yr OECD
- Wedi'u hardystio o dan reolau'r OECD os oes cynllun OECD perthnasol
- OIC ISTA

O ran gwledydd nad ydyn nhw'n aelodau o'r OECD, byddai allforion yn cyd-fynd â gofynion y wlad ei hun, ond peth anghyffredin yw symudiadau o Brydain Fawr i wledydd nad ydyn nhw'n aelodau o'r OECD.

Mae labeli a thystysgrif yr OECD, ynghyd ag OIC ISTA, yn dangos bod hadau yn bodloni safonau ar gyfer hunaniaeth amrywogaethau, purdeb amrywogaethau ac ansawdd hadau.

Mae canllaw llawn ar y camau i ardystio hadau yng Nghymru a Lloegr i'w symud i Ogledd Iwerddon, neu i'w hallforio i'r UE a phob gwlad arall sy'n aelodau o Gynlluniau Hadau yr OECD ar gael yma.

## Trosolwg o Ffioedd Ardystio Hadau

Mae cost profi hadau er mwyn i OICs gael eu rhoi ar gyfer sypiau o hadau a fwriedir i'w symud i Ogledd Iwerddon, sy'n cael eu cyflawni gan Orsaf Profi Hadau Swyddogol (OSTS) NIAB, yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar y ceisydd. Nid yw costau sy'n gysylltiedig â samplau ISTA ac ardystiad yr OECD yn cael eu hadennill ar hyn o bryd oddi wrth ddefnyddwyr y gwasanaethau hyn ac maent yn cael cymhorthdal gan APHA ar draul y trethdalwr, ac felly mae angen i'r llywodraeth ymyrryd er mwyn sicrhau bod y costau llawn yn cael eu hadennill unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

Polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw codi tâl am lawer o nwyddau a gwasanaethau a ddarperir yn gyhoeddus. Y dull safonol yw gosod ffioedd i adennill costau llawn darparu gwasanaeth ac adolygu'r ffioedd hyn yn gyson (naill ai bob blwyddyn neu bob dwy flynedd yn ôl yr angen) a hynny er mwyn rhyddhau'r trethdalwr cyffredinol rhag y costau, fel bod y rheiny'n cael eu talu'n briodol gan y defnyddwyr sy'n elwa o'r gwasanaeth. Mae hyn yn caniatáu i adnoddau cyhoeddus gael eu dosbarthu'n decach ac yn fodd i ostwng gwariant cyhoeddus a benthyca llai.

## Pŵer i newid ffioedd mewn perthynas â'r OECD ac ISTA

Mae gwaith marchnata hadau'r prif amrywogaethau amaethyddol a llysiau yng Nghymru yn cael ei reoleiddio gan Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012, ac yn Lloegr gan Reoliadau Marchnata Hadau 2011 lle mae Rheoliad 29 yn darparu – "Caiff Gweinidogion Cymru godi ffi resymol am unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn" a "The Secretary of State may charge a reasonable fee for anything done under these Regulations".

# Cynigion

## Cyflwyno ffioedd newydd am Ardystiad yr OECD

Y cynnig yw cyflwyno ffioedd newydd am ardystiad yr OECD.

Bydd y ffioedd am ardystiad yr OECD yn gymwys i ardystiad sylfaenol o dan gynllun yr OECD ac ail-ardystio hadau sydd eisoes wedi'u hardystio o dan wasanaeth Cymru a Lloegr.

Bydd cyflwyno'r ffioedd hyn yng Nghymru a Lloegr yn galluogi APHA i adennill costau ardystiad yr OECD gan weithredu yn unol â'r egwyddor o adennill costau llawn (Managing Public Money, HM Treasury (HMT), Mai 2023). Amcan cyflwyno ffi newydd am ardystiad yr OECD yw defnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithlon trwy drosglwyddo cost lawn darparu’r gwasanaeth o'r trethdalwr cyffredinol i fuddiolwyr uniongyrchol y gwasanaeth.

Dyma’r ffioedd newydd arfaethedig:[2]

| Gwasanaeth | Ffi Newydd Arfaethedig (£) |
|---|---|
| Rhoi Tystysgrif OECD (fesul swp hadau ardystiedig) | 146.28 |
| Hadau wedi'u mewnforio i'w cofnodi yn system ardystio'r Deyrnas Unedig | 61.05 |
| Cytundeb lluosi tramor* (fesul cnwd) | 213.30 |

* Mae tri math o luosi tramor.

1. Mae hadau o'r Deyrnas Unedig yn cael eu hanfon i wlad arall i'w lluosi (y Deyrnas Unedig yw'r ceisydd).
2. Mae hadau yn cael eu hanfon i'r Deyrnas Unedig i'w lluosi (y Deyrnas Unedig yw'r cynhyrchydd).
3. Mae'r amrywogaeth sydd i'w lluosi ar restr Prydain Fawr neu restr Ogledd Iwerddon, ond nid y Deyrnas Unedig yw’r ceisydd na'r wlad gynhyrchu.

[2] *Amcangyfrifon yw’r ffioedd newydd arfaethedig hyn ac fe allen nhw gael eu codi oherwydd chwyddiant*

# Cyflwyno ffioedd newydd am samplu ISTA

Y cynnig yw cyflwyno ffioedd newydd am waith samplu ISTA[3] sy'n cael ei wneud gan APHA yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw'r ffioedd arfaethedig yn gymwys i waith samplu ISTA sy'n cael ei wneud gan Samplwyr Hadau Trwyddedig (LSSs)[4]. Bydd y ffioedd arfaethedig yn cael eu talu ar ben y ffioedd presennol am brofi hadau a rhoi OIC ISTA, sy'n cael eu hadennill yn uniongyrchol gan NIAB.

Bydd cyflwyno'r ffioedd hyn yn galluogi APHA i adennill costau samplu ISTA gan weithredu yn unol â'r egwyddor o adennill costau llawn (Managing Public Money, HM Treasury (HMT), Mai 2023). Amcan cyflwyno ffi newydd am samplu ISTA yw defnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithlon trwy drosglwyddo cost lawn darparu'r gwasanaeth o'r trethdalwr cyffredinol i fuddiolwyr uniongyrchol y gwasanaeth.

Dyma'r ffioedd newydd arfaethedig:[5]

| Gwasanaeth | Ffi Newydd Arfaethedig (£) |
|---|---|
| Isafswm tâl am bob ymweliad i gymryd sampl(au) OIC (hyd at 30 munud) | 127.60 am y 30 munud cyntaf |
| Tâl ychwanegol am bob 15 munud o amser arolygydd a dreulir:<br>• yn cynnal yr arolygiad ar y safle<br>• ar weithgareddau cysylltiedig ar y safle | 63.80 am bob 15 munud ychwanegol |
| *Bydd angen talu'n llawn am bob 15 munud, hyd yn oed os yw'n cymryd llai o amser. Er enghraifft, os yw'n cymryd 42 funud i gwblhau'r ymweliad, bydd angen talu am 45 munud.*<br>*Mae'r amser a gymerir i'r arolygydd deithio yn ôl ac ymlaen i'r safle i gynnal yr arolygiad eisoes wedi'i gynnwys yn y ffioedd.* | |

Mae'r ffioedd ISTA arfaethedig wedi'u seilio ar y tâl allforio fesul awr sy'n deillio o'r adolygiad ffioedd Iechyd Planhigion diwethaf. Mae hwn yn dâl sy'n seiliedig ar amser yr arolygwyr wrth gyflawni gwasanaethau yn ystod ymweliadau â safle. Mae'r tâl yn gymwys i bob ymweliad, yn hytrach na fesul gwasanaeth sy'n golygu, os rhoddir mwy nag un gwasanaeth e.e., cymryd sampl OIC AC arolygiad allforio, yn ystod yr un ymweliad, dim ond un ffi fydd yn gymwys.

---

[3] *Mae samplu ISTA yn cyfeirio at y gwaith samplu a'r gwaith swyddogol yn goruchwilio selio hadau a wneir gan APHA yn unol â Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (yng Nghymru) a Rheoliadau Marchnata Hadau 2011 (yn Lloegr) gan ddefnyddio'r technegau a nodir yn rheolau ISTA ar gyfer rhoi tystysgrif ISTA.*

[4] *Ystyr LSS yw person y rhoddwyd trwydded iddo o dan Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (yng Nghymru) a Rheoliadau Marchnata Hadau 2011 (yn Lloegr) i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â samplu hadau. Wrth gymryd sampl i'w hardystio, mae'r LSS yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Ardystio.*

[5] *Amcangyfrifon yw'r ffioedd newydd arfaethedig hyn ac fe allen nhw gael eu codi oherwydd chwyddiant*

# Ymgysylltu â’r rhanddeiliaid

## Rhychwant a diben yr ymgysylltiad â’r rhanddeiliaid

Diben yr ymgysylltiad hwn â’r rhanddeiliaid yw casglu adborth ar y ffioedd newydd arfaethedig am samplu ISTA ac ardystiad yr OECD.

Mae Llywodraeth Cymru, Defra ac APHA eisiau deall sut y bydd y ffioedd newydd yn effeithio ar fusnesau.

Bydd yr holiadur canlynol o ddiddordeb i’r canlynol yn bennaf:

- y diwydiant bridio planhigion
- masnachwyr a phroseswyr hadau
- tyfwyr a ffermwyr
- sefydliadau ymchwil
- cyrff aelodaeth a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli bridwyr a thyfwyr planhigion.

## Canlyniadau’r ymgysylltiad â’r rhanddeiliaid

Mae'r ymgysylltiad yma â’r rhanddeiliaid yn gyfle i ystod o safbwyntiau gael eu casglu. Bydd yr ymatebion sy’n dod i law yn llywio'r ffioedd newydd arfaethedig am wasanaethau samplu ISTA ac ardystiad yr OECD a'u gweithredu, ac yn helpu i asesu'r effaith bosibl ar fusnesau. Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud, yn dilyn yr ymgysylltiad hwn, i fwrw ymlaen â'r cynigion a chyflwyno'r ffioedd newydd hyn, fe gewch chi lythyr gan APHA trwy’r ebost yn rhoi 4 wythnos o hysbysiad am y newid sydd i ddod.

Gellir trefnu bod sylwadau a ddarperir mewn ymateb i'r llythyr yma, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, ar gael i'r cyhoedd ar gais, yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

## Sut i ymateb

Ymatebwch drwy ddychwelyd yr holiadur drwy’r ebost i Defra-Plant-Varieties-and-Seeds@defra.gov.uk cyn 26/09/2025.

Ni fydd ymatebion sy’n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi.

## Cyfrinachedd a gwybodaeth am ddiogelu data

**Defnyddio a rhannu’ch gwybodaeth**

Mae sut rydyn ni’n defnyddio’ch data personol wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd ar ymarferion ymgynghori ac ymarferion sy’n galw am dystiolaeth sydd i'w weld yma: https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice

# Adran 1: Amdanoch chi

**1. Dywedwch ar ran pwy rydych chi'n ymateb (gorfodol). (Dewiswch un opsiwn yn unig)**

☐Unigolyn – Rydych chi'n ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach nag fel cynrychiolydd swyddogol i fusnes / cymdeithas fusnes / sefydliad arall.

☐Sefydliad anllywodraethol – Mewn rôl swyddogol fel cynrychiolydd i sefydliad anllywodraethol / undeb llafur / sefydliad arall.

☐Busnes – Mewn rôl swyddogol sy'n cynrychioli barn busnes unigol.

☐Corff sector cyhoeddus – Mewn rôl swyddogol fel cynrychiolydd i sefydliad llywodraeth leol / darparwr gwasanaeth cyhoeddus / corff sector cyhoeddus arall yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall.

☐Academia – Mewn rôl swyddogol fel cynrychiolydd i sefydliad academaidd.

☐Arall (rhowch y manylion)

**2. Dywedwch ble rydych chi, eich busnes neu'ch sefydliad wedi'ch lleoli.**

☐Lloegr

☐Cymru

☐Yr Alban

☐Gogledd Iwerddon

☐ Arall (rhowch y manylion)

**3. Ym mha un o'r meysydd canlynol rydych chi, eich busnes neu'ch sefydliad yn gweithredu (gorfodol)? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)**

☐Bridio planhigion

☐Tyfu cnydau er mwyn cynhyrchu hadau

☐Masnachwr hadau / prosesu

☐Ymchwilio a Datblygu

☐Sectorau/gweithgareddau eraill (rhowch y manylion)

**4. Os ydych chi'n ymateb fel sefydliad, busnes, corff cyhoeddus, neu sefydliad academaidd yng Nghwestiwn 2, pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o faint eich busnes neu'ch sefydliad (gorfodol)?**

☐Meicro (0-9 o gyflogeion)

☐Bach (10-49 o gyflogeion)

☐Canolig (50-249 o gyflogeion)

☐Mawr (250+ o gyflogeion)

☐Wn i ddim

☐Amherthnasol

**5. Ar gyfartaledd, faint o geisiadau am ardystiad hadau o dan gynlluniau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygu Economaidd (OECD) rydych chi, eich busnes neu'ch sefydliad yn eu gwneud bob blwyddyn?**

☐ 0-25

☐ 26-50

☐ 51-100

☐ 101-150

☐ 150+

**6. Ar gyfartaledd, faint o geisiadau am Dystysgrifau Rhyngwladol Oren (OIC) y Gymdeithas Profi Hadau Ryngwladol (ISTA) y mae eich busnes neu'ch sefydliad yn eu gwneud bob blwyddyn?**

☐ 0-25

☐ 26-50

☐ 51-100

☐ 101-150

☐ 150+

# Adran 2: Holiadur

Mae'r adran hon yn cynnwys cwestiynau am y ffioedd newydd arfaethedig am wasanaethau samplu ISTA a gwasanaethau ardystio'r OECD. Gofalwch eich bod wedi darllen yr wybodaeth ategol yn yr adran gefndir cyn ateb y cwestiynau canlynol.

**1a. Ar sail yr esboniad yn yr wybodaeth ategol, ydych chi'n deall y ffioedd newydd arfaethedig am wasanaethau samplu ISTA a gwasanaethau ardystio'r OECD?**

☐Ydw

☐Nac ydw

☐Arall

**1b. Os ydych chi wedi ateb 'nac ydw' neu 'arall' i'r cwestiwn blaenorol, esboniwch eich ateb.**

Eich ateb: ____________________________________________________

**2a. Ydych chi'n meddwl y bydd y ffioedd newydd arfaethedig am wasanaethau samplu ISTA a gwasanaethau ardystio'r OECD yn effeithio ar eich busnes chi?**

☐Ydw

☐Nac ydw

☐Ansicr

**2b. Os ydych chi wedi ateb 'Ydw' i'r cwestiwn blaenorol, pa newidiadau rydych chi'n rhag-weld y bydd rhaid i'ch busnes eu gwneud oherwydd y ffioedd newydd arfaethedig? (Dewiswch bob un sy'n gymwys)**

☐Newidiadau gweinyddol

☐Newidiadau mewn systemau

☐Newidiadau ariannol

☐Newidiadau eraill

**2c. Rhowch ragor o fanylion am unrhyw newidiadau y gall fod rhaid i'ch busnes eu gwneud oherwydd y ffioedd newydd arfaethedig.**

Eich ateb: ____________________________________________________

**3a. Ydych chi'n meddwl y bydd y ffioedd newydd arfaethedig am wasanaethau samplu ISTA a gwasanaethau ardystio’r OECD yn effeithio ar y farchnad hadau yn y Deyrnas Unedig a/neu yn rhyngwladol?**

☐Ydw

☐Nac ydw

☐Ansicr

**3b. Esboniwch eich ateb i’r cwestiwn blaenorol.**

Eich ateb: ________________________________________________

**4a. Ydych chi'n symud hadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon?**

☐Ydw

☐Nac ydw

☐Ansicr

**4b. Ydych chi'n meddwl y bydd y ffioedd newydd arfaethedig am wasanaethau samplu ISTA a gwasanaethau ardystio'r OECD yn effeithio ar symud eich hadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon?**

☐Ydw

☐Nac ydw

☐Ansicr

**4c. Esboniwch eich ateb i’r cwestiwn blaenorol.**

Eich ateb: ________________________________________________

**5a. Ydych chi'n allforio hadau o Brydain Fawr i'r UE a/neu wledydd eraill sy'n aelodau o Gynlluniau Hadau yr OECD?**

☐Ydw

☐Nac ydw

☐Ansicr

**5b. Ydych chi'n meddwl y bydd y ffioedd newydd arfaethedig am wasanaethau sampl ISTA a gwasanaethau ardystio'r OECD yn effeithio ar allforio'ch hadau o Brydain Fawr i'r UE a/neu wledydd eraill sy'n aelodau o Gynlluniau Hadau yr OECD?**

☐Ydw

☐Nac ydw

☐Ansicr

**5c. Esboniwch eich ateb i'r cwestiwn blaenorol.**

Eich ateb: ____________________________________________

**6a. Gan ddefnyddio graddfa o 0 = Ddim yn arwyddocaol o gwbl i 5 = Arwyddocaol iawn, nodwch pa mor arwyddocaol fydd yr adolygiad arfaethedig o'r ffioedd fel cost rhedeg ychwanegol i'ch busnes (ticiwch un categori)**

[0 ddim yn arwyddocaol o gwbl / 1 / 2 / 3 / 4 / 5 arwyddocaol iawn / Ansicr]

Eich ateb: ____________________________________________

**6b. Esboniwch eich ateb i'r cwestiwn blaenorol.**

Eich ateb: ____________________________________________

**7a. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r gosodiad canlynol? "Bydd fy musnes yn gallu cynllunio ac addasu ar gyfer cyflwyno ffi newydd am wasanaethau samplu ISTA ac ardystiad yr OECD" (Dewiswch bob un sy'n gymwys)**

☐Anghytuno'n gryf

☐Anghytuno

☐Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐Cytuno

☐Cytuno'n gryf

**7b. Esboniwch eich ateb i’r cwestiwn blaenorol.**

Eich ateb: ____________________________________________

**8. Rhowch unrhyw argymhellion ar gyfer sut y gellid cyflwyno'r ffi samplu ISTA mewn ffordd i leihau’r effeithiau ar eich busnes.**

Eich ateb: ____________________________________________

**9. Rhowch unrhyw argymhellion ar gyfer sut y gellid cyflwyno ffi ardystio'r OECD mewn ffordd sy'n lleihau'r effeithiau ar eich busnes**

Eich ateb: ____________________________________________

**10. Pa wybodaeth ychwanegol am y ffioedd ardystio hadau arfaethedig a all fod ei hangen i gefnogi'ch busnes, os oes angen gwybodaeth ychwanegol o gwbl?**

Eich ateb: ____________________________________________